




Llais y Llan Ebrill 2019

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Maifind 2019

Cyhoeddwyd gan LlanpumsaintCyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan



Cofeb i Ifan Tom yn Brynhyfryd Bronwybb



Teulu ifan Tom yn dathlu'r dadorchuddio



Y cynheuaf sbwriel o'r Graig i'r Cwppers



Mae Vi yn bles a'i stethosgop



RHAGLEN Y DYDD / PROGRAMME OF THE DAY

12:30yp/pm

I ddechrau / To start

1yp/pm

Gair gan y Llywydd a
Chystadleuaeth Gwisg Ffansi
Word from the President and Fancy
Dress Competition

2yp/pm

Tynnu'r Gelyn
Tug of War

4yp/pm

Ras Hwyaïd
Duck Race

Tynnu'r Gelyn / Tug of War
Timoedd o 8 8 per team
£10 y tîm / per team

CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI FANCY DRESS COMPETITION

Thema - Rhywbeth yn dechrau gyda'r llythyren "L" neu "LI"
Theme - Anything beginning with the letter "L" or "LI"

- O dan 3 / Under 3's
- Meithrin i Bl 2 / Nursery to Yr 2
- Bl 3 - Bl6 / Yr 3 - Yr6
- Uwchradd / Secondary
- Dros 18 / Over 18's
- Gwnewch eich gwisg eich hun! Gwobr am yr un orau!!
Make your own costume! A prize for the best one!!

CREFFT / CRAFT

- Bl2 ac iau / Yr2 and under
- Thema - Llun o Llanpumsaint (mewn unrhyw steil)
Theme - A picture of Llanpumsaint (in any style)
- Bl3 - Bl6 / Yr 3- Yr6
- Thema - Llun o Llanpumsaint (mewn unrhyw steil)
Theme - A picture of Llanpumsaint (in any style)
- Uwchradd / Secondary
- Thema - Hunlun o "Llanpumsaint a fi"
Theme - A selfie of "Llanpumsaint and me"
- Dros 18 / Over 18's
- Thema - Ffotograff o Llanpumsaint
Theme - A photograph of Llanpumsaint

Plis dewch a'ch darn crefft i'r Neuadd erbyn 12:45yp
Please bring your craft piece to the Hall by 12:45pm

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa
Cylch y Pentref Dydd Mawrth Yn yr Eglwys 2.00 – 3.30
Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643
Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4
Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd
Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher, 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr
Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa
Ail fore Sadwrn bob mis -Y Farchnad Fisol, 10.00 – 12.00 Neuadd Eglwys Llanllawddog
Ti a Fi pob Bore Gwener 10.00 - 12.00 Neuadd Bronwydd
Cylch y Pentref pob Dydd Mawrth 2.00 – 3.30 Eglwys Llanpumsaint
Ebrill 10 Dydd Fercher 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Lanpumsaint 3.30 – 5 yp
Ebrill 10 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643
Ebrill 10 Nos Fercher 7.30 Bingo'r Pasg Neuadd Goffa
Ebrill 14 Dydd Sadwrn 10.30 Tacuso Cymdietha Rhandiroedd Llanpumsaint
Ebrill 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Ebrill 17 Nos Fercher 7.00 CRA Bingo'r Pasg Neuadd Goffa
Ebrill 19 Dydd Gwener a 21 Dydd Sul Gwasanaethau Pasg – yn y Eglwys, Capelau, a'r Skanda Vale
Ebrill 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Ebrill 28 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Ebrill 29 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd
Ebrill 30 Nos Fawrth 7.00 Cyfarfod Cyffredinol Eglwys Llanpumsaint
Ebrill 30 Nos Fawrth 8.00 Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol Pwyllgor Lles ac Adloniant Neuadd Goffa
Mai 1 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
Mai 1 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Mai 3 Nos Wener 7.00 Cwis Skanda Vale Hospice Saron
Mai 5 Dydd Sul Taith Faesi Dewinwyr Gorllewin Cymru
Mai 6 Dydd Llun Taith Gerdded Skanda Vale
Mai 11 Dydd Sadwrn 10.00 Materion Marw Skanda Vale Hospice
Mai 13 Nos Lun 7.30 Cyfarfod Cyffredinol Curad Calon Llanpumsaint Neuadd Goffa
Mai 18 Dydd Sadwrn Dydd Hwyl Pwyllgor Lles ac Adloniant
Mai 19 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Mai 20 Nos Lun 8.00 Cyfarfod Cyffredinol Cyfnewidfa Gwybodaeth Llanpumsaint Neuadd Goffa
Mai 26 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Mai 27 Dydd Llun Dringo Cader Idris - Manlion www.skandavalehospice.org.events
Mai 27 Dydd Llun Cerdded Llandysul - Manlion www.skandavalehospice.org.events
Mehefin 1 Dydd Sadwrn 10.30 – 1.00 Ddydd Agored Cymunedol y Gerddi
Mehefin 1 - 2 Dydd Sadwrn a Dydd Sul Treil Cŵn Defaid Fferm Llwynbedw Llanpumsaint
Mehefin 1 – 2 Dydd Sadwrn a Dydd Sul Gŵyl Gerddorol yn Llandysul
Mehefin 5 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Mehefin 9 Dydd Sul Fferm Agored Esgair a Hafod
Mehefin 14 Nos Wener Helfa Drysor y Ceir Pwyllgor Lles ac Adloniant

Mehefin 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mehefin 26 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mehefin 29 Dydd Sadwrn Bore Coffi Skanda Vale Hospice Saron

Mehefin 29 Dydd Sadwrn Ffair Haf Eglwys Llanllawddog

Medi 21 Dydd Sadwrn 10.00 – 12.00 Bore Coffi Macmillan Neuadd Goffa

Rhagfyr 7 Dydd Sadwrn Ffair Nadolig – Neuadd Goffa

I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, ffoniwch Derick Lock 253524

Ymfalchïo yn yr ardal drwy dacluso a chasglu sbwriel.

Mae'n syndod faint o sbwriel a gasglwyd gan wirfoddolwyr ddechrau mis Mawrth. Buom wrthi'n tacluso pob hewl i mewn i'r pentre'. Bu'r cynheuaf mwya' o waelod Rhiw Graig i waelod Rhiw Cwpers - 12 llawn bag credwch neu beidio, gan gynnwys drws rhyw rewgell! Y cyfanswm oedd 24 bag, wnaeth sicrhau i'r ardal fod yn hollol lan am un diwrnod beth bynnag.

Casglwyd nifer fawr o fagie bwyd, caniau coffi a diod oedd yn amlwg wedi eu towli allan o geir gan unigolion anghyfrifol yn becco dim am neb. Bydd pobol gwâr yn mynd a'u sbwriel adre i'w rhoi yn eu biniau, ond mae 'na eraill sy'n disgwyl i rywun arall glirio eu hanibendod, a chyntachu hefyd. Felly am un diwrnod gwelwyd ein hewlydd yn loyw lân cyn i'r budreddi ddychwelid yn weddol glou. Dylid cofio fod yna ddirwy o £80 i unrhyw un ceith ei ddal yn taflu sbwriel - felly mae'n dipyn rhatach mynd ag e' adre!

Diolch o galon i bawb wnaeth estyn help llaw ac yn arbennig i Edward a Sylvia Panteg gasglodd llawn 12 bag o'r Graig i Cwpers, ac am ddod a'r drws rhewgell 'nol mewn whilber.

Carolyn Smethurst

Bowlio Dan-Dô Llanpumsaint a Nebo

Bellach daeth y tymor 2018 - 2019 i ben, gyda thair o'r pedair gem olaf yn galonogol. Ennill 6-2 i ffwrdd erbyn Llangennech, wedyn crasfa o 8-0 i Feinciau gartre a chyfartal 4-4 erbyn Llanboidy B, hefyd gartreEin safle terfynnol oedd canol y Tabl.

Cyn hir byddwn yn cystadlu am Dlŵs Roy Bowen yn erbyn Bronwydd, ac yna cynnal ein cystadlaethau mewnol cyn mwya'u ein noson wobrwyo a'r cinio blyneddol. Llongyfarchwn Rhys a Catrin Williams wrth iddynt gynrychioli Cymru Dan 21ain yn erbyn Lloegr yn Tamworth. Dyma eu profiad cynta' o'r maes rhyngwladol a gobeithio y byddant yn parhau. Mae'r Clwb yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Cofiwch ymweld â'n Gwefan Llanpumsaint. Org.uk., lle byddwn yn rhannu gwybodaeth am gystadlaethau clwb, sirol a digwyddiadau eraill fel y bont yn ymddangos.

Rydym yn cyfarfod yn y Neuadd bob Nos Lun a Nos Iau o 7.30 tan 9.30, a hynny hyd ddiwedd Ebrill. Croeso i chwaraewyr newydd rhwng 11 a 99 oed, ac mae gyda'm hyfforddwyr profiadol wrth law i estyn cymorth. Gwybodaeth bellach oddi wrth y Cadeirydd Derick Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474.

Fferm Agored Dydd Sul 9fed Mehefin 2019

Cyfle dan gynllun Fferm Agored pan agorir y ietau i groesawu ymwelwyr i Fferm Yr Esgair dan wahoddiad Martin a Nicky. Gallwch weld yr anifeiliaid, cerdded ar hyd y llwybr natur a mwynhau'r golygfeydd cyn rhannu cwpaned o de gyda'r ddau. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim ond os dymunwch gallwch wneud cyfraniad i Maggies Abertawe. I gyrraedd dilynwch yr arwyddion o'r pentref. www.pastureperfect.co.uk <<http://www.pastureperfect.co.uk>>

Fferm Agored arall yn Hafod Bancyffordd sa44 4sd lle bydd Annie a Liam James yn ogor drysau eu fferm odro o 1 o'r gloch tan bedwar. Croeso – gwelir www.farmsunday.org neu ffoniwch Annie 07747013388.

Clafdy Skanda Vale.

Wrth groesawu'r Gwanwyn ar drothwy'r Pasg mae 'na lawer yn digwydd 'mha! Felly hoffwn wahodd y gymuned leol i'n gwasanaethau Ddydd Gwener y Groglith a'r Offeren Noswyl Sadwrn am 11.45 y.h. i arwain i mewn i Sul y Pasg. Wedyn cynhelir ein Gwasanaeth hwyrol am naw o'r gloch nos Sul. Edrychwn ymlaen at weld rhai ohonoch gyda ni.

Gwasanaeth y Groglith yn Skanda Vale (sa33 6jt) 19eg Ebrill am 3y.p. Croeso a chysylltwch am fwy o wybodaeth – enquiries@skandavale.org

Offeren Ganol Nos Sadwrn 20fed Ebrill am 11.45 y.h (sa33 6jt) - Croeso - darperir lluniaeth wedi'r gwasanaeth. Cysylltwch - enquiries@skandavale.org <<mailto:enquiries@skandavale.org>>

Noson Cwis yn y Clafdy Saron (SA44 5DV) - Nos Wener 3dd Mai - 7- 9 o'r gloch - mynediad £3 lluniaeth ysgafn a gellir prynu diod drwy gyfraniad. hello@skandavalehospice.org <<mailto:hello@skandavalehospice.org>>

Taith Gerdded Noddedig y Clafdy 6ed Mai sef Dydd Llun Gŵyl y Banc gyda dewis o dair taith. Tair milltir o amgylch Llangrannog - 6 milltir o Langrannog i Gwmtudu - 10 milltir o Langrannog i Gei Newydd gyda gwledd o ginio rhad ar y diwedd. Am fwy o wybodaeth www.skandavalehospice.org/events <<http://www.skandavalehospice.org/events>>.

Materion Marw Sadwrn 11eg Mai – o ddeg y bore ymlaen. Digwyddiad i annog trafodaeth am farwolaeth er mwyn ein paratoi i ddygymod a'r anochel. Bydd siaradwyr gwadd yn trafod amrywiaeth o bynciau yn ystod y dydd. Lluniaeth ar gael. Cyswllt – hello@skandavalehospice.org.

Dringo Cader Idris 27ain Mai - Dydd Llun Gŵyl y Banc. -

Dringwch lan i fynydd godidog o brydferth er mwyn codi arian i'r Clafdy. Bydd cludiant a bwyd yn cael eu darpari. Manylion - www.skandavalehospice.org/events <<http://www.skandavalehospice.org/events>>.

Gŵyl Gerddorol yn Llandysul 1- 2 Mehefin

Daw mwy o fanylion maes o law. Cyswllt – enquiries@skandavale.org

Bore Coffi yn y Clafdy (sa44 5dv) Sadwrn 29ain Mehefin 10 – 12 o'r gloch

Te, coffi, cacennau, raffl a thombola. Cyswllt hello@skandavalehospice.org <<mailto:hello@skandavalehospice.org>>.

Dymunwn wanwyn llawen a Phasg heddychlon i bawb oddi wrthym yn Skanda Vale.

Cyfnewidfa Gwybodaeth Llanpumsaint

Bellach buom yn cyhoeddi ein cylchgrawn am 8 mlynedd a bydd yr un nesa' yn Ebrill 2019 yn rhif 49. Felly carwn ddiolch ein holl gyfranwyr sydd wedi ein cefnogi dros y cyfnod. Diolch hefyd i'n holl hysbysebwyrr, hebddynt hwy ni allwn fod wedi parhau, heb anghofio Cyngor Cymuned Llanpumsaint am eu cefnogaeth ariannol dros y blynyddoedd. Rhaid peidio anghofio aelodau ein Pwyllgor a'n dosbarthwyr drwy bob tywydd. Postiwyd y rhifynnau i'r ffermydd a'r tai pellennig ac mae tua hanner cant o gartrefi'n derbyn y cylchgrawn drwy E-bost. Un diolch pwysig eto - i Arwyn Thomas a Gwyn Nickolas am gyfieithu dros y blynyddoedd i gynnal ein cylchgrawn yn y ddwy iaith.

Eleni derbyniwyd grant oddi wrth Gronfa Fferm Wynt Brechfa i'n ysgwyddo i'r dyfodol. Bydd yn fuddiol i'n cymorth gyda'r gwaith cyfieithu a golygu a hefyd er mwyn cynnal a gwella'r Wefan www.llanpumsaint.org.uk <<http://www.llanpumsaint.org.uk>>. Cynhelir ein cyfarfod cyffredinol ar 20 Mai 8.00pm am saith o'r gloch yn y Neuadd Goffa. Croeso yn y gobaith y gwelwn aelodau newydd i'r Pwyllgor. Carolyn Smethurst – Cadeirydd – 01267 253308 neu info@llanpumsaint.org.uk

Dewinwyr Gorllewin Cymru - Digwyddiadau'r Dyfodol

Dydd Sul Ebrill 28ain - Dewi Bowen - Safleoedd Cyntefig Gorllewin Cymru

Sul Mai 5ed – Diwrnod Dewinio Rhyngwladol – Taith faes i Eglwys Gadeiriol Tyddewi a Chapel y Santes Non.

Sul Mai 19eg - Maria Wheatley - Dewino Safleoedd Cysegredig Gorllewin Cymru.

Sul Mehefin 23ain - Gary a Caroline Biltcliffe - Speingefn Albion a'r Canolfan Grym

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45yp, ac am £4 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Clwb Cant Llanpumsaint

Tynnir enillwyr Mawrth ag Ebrill yng nghyfarfod y Pwyllgor Lles ac Adloniant ar y 30ain o Ebrill.

Anfonwch eich tal aelodaeth o £12 i mi erbyn y 24ain o Ebrill. Os am ymuno o'r newydd cysylltwch â mi neu ffoniwch Dereck Lock 01267 253524 - Trysorydd.

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd Goffa ar Nos Fawrth 30ain o Ebrill am wyth o'r gloch.

Yr elusen ddewisol eleni fydd yr Uned Gofal Dwys i Fabanod yn Ysbyty Glangwili. Felly bydd yn elwa adeg Nadolig nesa'i enillion Taith Siôn Corn a'r cyfraniadau i'r Botel wrth Far y Raiwe. Hoffwn hefyd glywed drwy glust ein Cadeiryddes Pamela, awgrymiadau am elusen ddewisol i'r flwyddyn 2020. Bu'r Cinio Elusen yn y Railwe ar yr ail o Ebrill yn llwyddiant mawr, a diolchwn i Wayne, Liz a Michael am eu gwasanaeth yno. Bydd yna Helfa Trysor mewn ceir ar y Nos Wener y 14eg o Ebrill. Ceir manylion pellach oddi wrth Matthew a Heledd Jones neu Aaron Jones.

Mae yna Is-bwyllgor wrthi'n brysur yn llunio cais i Gronfa Coedwig Brechfa am welliannau i ardal chwarae'r plant yn y cae chwarae. Ar y Diwrnod Hwyl ar y 18fed o Fai, drefnir gan y Pwyllgor, Capel Nebo, Yr Eglwys a Chymdeithas Rien'r Ysgol, gwnaed cais i'r Cyngor Sir am gau'r heol rhwng y Ficerdy newydd a'r Neuadd, o hanner dydd tan saith yr hwyr.

Eleni cynhelir Bore Coffi Macmillan ar Sadwrn 21ain o Fedi o ddeg tan hanner dydd.

Dereck Lock - Ysgrifennydd

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol ar fore Sadwrn yr ail o Fawrth am ddeg y bore ar y safle. Llawen fu croesawu rhai aeloda newydd. Cytunwyd i'r Cadeirydd, Trysorydd a'r Ysgrifennydd barhau yn eu swyddi am y flwyddyn. Bydd bore o gymhennu a chomopo i ddiwedd am 10.30 y.b ar y 14eg o Ebrill. Er i ni ddioddef peth llifogydd mewn un rhan gobeithiwn weld gwelliant cyn hir, os daw cymorth. Gall unrhyw un ddod i weld y safle heb ofni gorfod gwneud dim. Byddwn ar agor ar Ddydd Agored Cymunedol y Gerddi, sef Sadwrn 1af o Fehefin o hanner awr wedi deg tan un o'r gloch.

Hanes Amgen y Garddwr Eichreddig

Yn ôl y son, 'nol yn y ddeunawfed ganrif aeth llanc yn dipyn o arddwr. Ond fe'i gwaharddwyd o'r safle am iddo gael gormod o pi-pis y tu ôl i'r sied. Mewn canlyniad aeth yn droseddwr digyfaddawd gan ddwyn o erddi a ffermydd, ac mewn byr o amser daeth Dic Turpin yn enwog drwy'r wlad. Llwyddodd i gadw'i draed yn rhydd drwy lwgr wobrwyo swyddogion gyda'i gynnyrch anghyfreithlon o bob math.

Yn y diwedd fe'i cipiwyd i ymddangos o flaen ei well ond llwyddodd i ddwyn perswâd ar y Barnwr, ac fe'i tynnwyd i mewn i'r Heddlu Cudd, ond ni wyddai ble'r oedd y Swyddfa. Wedi iddo gychwyn daeth yn amlwg fod llawer o wybodaeth gyfrinachol yn mynd ar goll, felly cafodd y sac. Yn dilyn hyn newidiodd ei enw i ganlyn gyrfa newydd fel lleidr pen ffordd. Yn ôl rhai cafodd ei ddal a'r grogi, ond yn ôl eraill dihangodd dros Fôr y Gogledd, ac wedi rhoi lot o bwyse arno gorffennodd yn swetsen yn Sweden

Gyda llaw dewch o hyd i'r Rhandir yn hen orsaf drenau Llanpumsaint yr ochor draw i Dafarn y Railwe. Cyswllt Ray (Cadeirydd/Trysorydd) 253157 neu Keith (Ysgrifennydd) 253375

Curad Calon Llanpumsaint - Cyfarfod Cyffredinol 7fed Mai 7.30 – Neuadd

Bellach mae'r mudiad wedi gosod 4 Adfywiwr yn y plwyf - gyda'r bwriad o achub bywyd pan ddaw toriad ar y galon. Dyma leoliadau'r peirannau Adfywio ***Y tu fas i'r Neuadd ger y fynedfa - sa336bz***

Y tu fas i dafarn y Railwe ochor y maes parcio - sa336bu

Ar wal Fferm Henfryn ar y ffordd tua Ffynnonhenri - sa336ld

Tu fas festri Capel Nebo - sa336hn

Felly byddwch yn ymwybodol o'r un nesaf atoch . Er na fu galw am un yn y tair blynedd maent wedi bod 'ma, daw'r angen yn ddirybudd!. Mae'r Adfywiwr yn weithredol bob awr o'r dydd neu nos, ac nid oes angen allwedd i'w defnyddio. Felly dewch i'n Cyfarfod Blynnyddol oherwydd mae angen gwaed newydd ar ein Pwyllgor.

Os am fwy o wybodaeth neu angen benthyg y pecyn Hyfforddi cysylltwch - info@gwilimill.co <<mailto:info@gwilimill.co>> neu 253308. Bydd y pecyn Hyfforddi yno ar y Dydd Hwyl a gallwch fenthyg un a mynd ag e' gartre' i ymarfer gyda'r teulu.

Carolyn Smethurst - ysgrifenyddes.

Gofal Traed Dyma ddyddiadau'r ddau glinig nesaf yn y Neuadd Goffa am 10 o'r gloch y bore ar y 1 Mai 2019 a 26 Mehefin.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Eglwys Llanpumsaint

Bob Dydd Mawrth - Cylch y Pentref - 2.00 – 3.30

Mercher 10fed Ebrill – Eglwys Agored Llanpumsaint 3.30 – 5.30

Sadwrn 13eg Ebrill – Marchnad Godi Arian Llanllawddog 10 – 12.

Gwener 19eg Ebrill - Y Groglith - 10.00 Gorsafoedd y Groes Llanpumsaint

2.00 Celynin - Myfyrdod y Groes

Sul 21ain Ebrill – Y Pasg - 9.30 Cymun Llanllawddog - 11.00 Cymun Celynin

Mawrth 30ain Ebrill – Cyfarfod Blynnyddol Unol yr Eglwysi – 7.00 Llanpumsaint

Sadwrn 11eg Mai – Marchnad Godi Arian Llanllawddog 10-12.

Llun 13 eg Mai – Eglwys Agored 3.30 – 5.00 Llanpumsaint

Sadwrn 29ain Mehefin – Ffair Haf – Llanllawddog

Yn fuan ar ôl ein gwasanaeth cydenwadol i gofio'r Lladdfa es i Eglwys Gadeiriol Coventry. Mae' adfeilion gweddillion yr hen adeilad a fomiwyd yn 1940 yn toddi i mewn i'r un cyfoes gysegrwyd yn 1962. Yn dilyn y gyflafan gwnaeth y Profost Dick Howard arsgrifio'r geiriau "*Arghwydd Maddau!*" ar y wal lle gellir ei weld hyd y dydd heddiw. Yr ymadrodd syml yma sy'n atal dweud "*Arglwydd maddau nhw!*" wnaeth sicrhau i Coventry ddatblygu'n ganolfan Gweinidogaeth y Cymod.

Adroddir Litani'r Cymod amser canol dydd yn yr Eglwys, ac ar ddydd Gwener ymuna nifer o ganolfannau Cymod eraill led led y byd mewn gweddi. Yna meddyliais oni fyddai'n beth gwyh i Lanpumsaint ymuno fel canolfan Cymod hefyd, i gyd ymffrostio ac anghydfynd droeon hefyd. Wedi ychydig o ymchwil daeth yn amlwg i bentref Lambeder yng Ngwynedd fod yr unig ganolfan Cymod yng Nghymru. Efallai fod y digwyddiad erchyll diweddaraf yn Seland Newydd yn fodd i hoelio ein sylw.

Fel man cychwyn bwriadaf adrodd Litani'r Cymod bob dydd Gwener yn yr Eglwys am hanner dydd, ond er mwyn gwireddu hyn bydd angen pum gwirfoddolwr fydd yn barod i arwain y Litani am un dydd Gwener yn y flwyddyn. Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch â mi.

Parch Gaynor – i_gaynor@hotmail.com 253158

Y Croeso Cynnes

Wedi symud lan o dre Caerfyrddin fis Hydref teimlwn yn gartrefol iawn ar un waith yn Llanpumsaint. Mwy o sêr yn y nen a mwy o le gwyrdd o amgylch, ac ar ben y cwbl Band Jazz Swing yn y Neuadd. Yno daeth cyfle i gwrdd â chyfeillion newydd, a mwynhau gan gefnogi Elusen Macmillan.

Wedi camu mas ar noson rewlyd cyrhaeddom gynhesrwydd y Neuadd am brofiad arbennig. Crëwyd awyrgylch addas i'r jazz gan y goleuadau isel, a chawsom groeso twymgalon i rannu bwrdd a chyfeillion, ac i adnabod rhai wynebaw cyfarwydd. Bu'r bwyd a'r adloniant o'r gore ac ar noson oer 'roedd y bwyd Chili yn addas iawn a'r pwddin yn flasus tu hwnt. Gyda'r gerddoriaeth amrywiol o wahanol ddegawdau i ryddhau dawnsfeydd amrywiol cneuwyd noson gofiadwy i bawb.

Dyma ein hymweliad cyntaf a'r Neuadd ac 'roeddem yn gwerthfawrogi'r holl ymdrechion cydweithredol ar y noson ac ar ôl hynny hefyd. Felly fel teulu edrychwn ymlaen at ymuno yn y gweithgareddau sydd i ddod.

Rosie, Sharon a Molly Frewin pobl newydd Gwynfryn (heb anghofio Ralph y ci du)

Papur Llafar

Dros y ddwy flynedd ola' rydym wedi mwynhau'r profiad o fod yn wirfoddolwyr i'r Papur Llafar. Dyma wasanaeth rhâd dwyieithog i'r dall a'r rhannol ddall yn siroedd Caerfyrddin, Penfro a thu hwnt. Mae ein cwsmer pellaf yn byw yn Llanidloes Powys, fydd yn gant oed yng Nghorffennaf eleni. Os oes gennych beiriant CD gallwch elwa o'r gwasanaeth rhâd yma, gan dderbyn CD yn wythnosol sy'n cynnwys newyddion lleol ac yn rhestri digwyddiadau.

Hefyd mae yna wasanaeth arall sef Llyfrau Llafar Cymru gan yr un mudiad, sy'n cynnwys y llyfrau'n llawn. Gallwch weld catalog o'r holl lyfrau sydd ar gael. Os oes diddordeb ffoniwch 01267 238225 neu llyfraullafarcymru@outlook.com

Profodd y CD's yma yn fuddiol dros ben i bobl a diffyg golwg drwy eu cadw mewn cysylltiad â newyddion a digwyddiadau lleol. S Davies Panteg Llanpumsaint

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Digwyddiadau

Ebrill 10fed 2019 – Bingo'r Pasg - Neuadd 7.30 y.h

Rhagfyr 7fed 2019 – Ffair Nadolig – Neuadd

Bingo'r Pasg

Yn dilyn llwyddiant y nosweithiau blaenorol gyda'r Bingo mae'r Gymdeithas am gynnal un arall ar y 10fed o Ebrill 2019 yn y Neuadd Goffa. Mynediad am ddim ac yna prynwch eich offer chwarae er mwyn cystadlu am y gwobrau. Bydd lluniaeth ar gael ac mae croeso mawr i bawb.

Codi Arian yn rhwydd.

Os i chi'n siopa ar y we yna gallwch godi arian i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon.

Cofrestrwch ar www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA

[<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA>](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA) neu siaradwch ag Emma Brown.

Codi arian cyfatebol

Os oes 'na rywun yn gymuned yn gallu ceisio am arian cyfatebol drwy eu gwaith neu ffordd arall ac yn barod i'r Gymdeithas Rieni elwa'n gyfatebol yna cysylltwch â Becky James ar 01267 253560.

Cofeb Ifan Tom Post

Daeth tyrfa ynghyd ar brynhawn Sadwrn olaf Mis Mawrth pan ddadorchuddiwyd Cofeb ar wal Brynhyfryd. Hwn oedd cartref Ifan Tom a Leis Davies, ganol y ganrif ddiwethaf, a dyma safle'r Swyddfa Bost bryd hynny. Bu'n ganolfan prysur gyda'r dafarn a'r siop lan hewl, yr orsaf ddrws nesa' a'r ddwy ffatri wlân gerllaw. Yr oedd Ifan Tom ynghanol y bwrlwm i gyd, ac yn un o hoelion wyth yr hen gymdeithas yn Bronwydd. . O'r pedwar plentyn byddai Russell yn aros i ymgartrefu'n Nanthelyg.

Wedi ymddeol o waith glo Pentre Mawr yn Pontyberem llwyddodd Ifan Tom gael swydd tipyn nes adre. Fe oedd Gorsaf Feistr olaf Bronwydd o 1953 hyd 1970, ac fel Glyndwr Jones yn Llanpumsaint gwelodd y gwasanaeth trenau o Gaerfyrddin i Aberystwyth yn dirwyn i ben. Cwmpodd bwyell derfynol Beeching. Ond bu Ifan Tom yn lwcus i fyw i weld hynny o gwbl! Dros Hanner canrif ynghynt yr oedd ar fwrdd y llong S.S.Picton yn harbwr Halifax yn Canada yn 1917. Aeth llong yn llawn ffrwydron ar dan i ddinistrio'r harbwr a'r dre, gan ladd dros 1,600 a niweidio tua 9 mil arall. Er iddo fod llai na dau gan llath i ffwrdd o'r ffrwydriad mi oroesodd Ifan Tom, un o dri'n unig. Pan ddaeth at ei hunan yn noeth ar y dec gallai weld y bwthyn bach yn Pencader lle'i ganed.

Ralph Carpenter, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, agorodd y seremoni, ac wedi i Arwyn Thomas amlinelli cefndir y fenter, Wyr Ifan Tom, David Jones, gyda chymorth or-Wyron, wnaeth dynnu'r ddraig goch . I ddilyn ymgasglwyd yn Nantcelynen am luniaeth a sgwrs. Cyfranwyr at y Gofeb gan Susan & Jeremy John, David Jones (Nanthelyg), Cyngor Cymuned Bronwydd ac Arwyn Thomas. Diolchwyd hefyd i Claire Price Brynhyfryd am gyniatad, a Glyn Ifans Eldorado am osod y Gofeb yn ei lle.

Hynod o beth! Ar yr un prynhawn llathenni i ffwrdd o'r dadorchuddio gwelwyd gatiau newydd yn cael ei rhoi yn eu lle ar y groesfan. Hiraeth a gobaith yn cyd-wau.

Arwyn 2019

Cór Llanpumsaint a'r Cylch.

Cyn Nadolig 2018 fe gymerodd y cór ran mewn Oedfa Garolau yng Nghapel Priordy, Cerfyrddin er cof am un o ffyddloniaid y cór sef y diweddar Alison Evans. Cafwyd noson lwyddianus iawn gyda'r Capel yn llawn a gwnaed elw o dros £1600.00 tuag at Justin-Time. Mae hwn yn awr wedi cael ei drosgwlyddo i Sian Cothi sydd yn rhannol gyfrifol am yr elusen hyn. Cafwyd toriad haeddiannol wedyn ac yn awr yr ydym yn paratoi ar gyfer penblwydd y cór yn 40 deg oed ym mis Hydref eleni. Bydd gwahanol weithgareddau yn cael eu cynnal felly cadwch lygaid ar yr hysbysebion yn y pentref ac yn y wasg gan gynnwys Llais y Llan.


Fel pob cór arall rydym bob amser yn croesawu aelodau newydd. Felly os oes diddordeb gennych cysylltwch a Gwyn Nicholas neu unrhyw aelod o'r cór ac fe gewch groeso cynnes.



Village Voice April 2019

Copy Date for next Edition 24th May 2019

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
 Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice



Plaque to Evan Tom Davies at Bronwydd



Evan Tom's Family celebrates unveiling



Rubbish collected from the Graig to Coopers



Vi pleased with her stethoscope!



RHAGLEN Y DYDD / PROGRAMME OF THE DAY

12:30yp/pm

I ddechrau / To start

1yp/pm

Gair gan y Llywydd a
Chystadleuaeth Gwisg Ffansi
Word from the President and Fancy
Dress Competition

2yp/pm

Tynnu'r Gelyn
Tug of War

4yp/pm

Ras Hwyaïd
Duck Race

Tynnu'r Gelyn / Tug of War
Timoedd o 8 8 per team
£10 y tîm / per team

CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI FANCY DRESS COMPETITION

Thema - Rhywbeth yn dechrau gyda'r llythyren "L" neu "LI"
Theme - Anything beginning with the letter "L" or "LI"

- O dan 3 / Under 3's
- Meithrin i Bl 2 / Nursery to Yr 2
- Bl 3 - Bl6 / Yr 3 - Yr6
- Uwchradd / Secondary
- Dros 18 / Over 18's
- Gwnewch eich gwisg eich hun! Gwobr am yr un orau!!
Make your own costume! A prize for the best one!!

CREFFT / CRAFT

- Bl2 ac iau / Yr2 and under
- Thema - Llun o Llanpumsaint (mewn unrhyw steil)
Theme - A picture of Llanpumsaint (in any style)
- Bl3 - Bl6 / Yr 3- Yr6
- Thema - Llun o Llanpumsaint (mewn unrhyw steil)
Theme - A picture of Llanpumsaint (in any style)
- Uwchradd / Secondary
- Thema - Hunlun o "Llanpumsaint a fi"
Theme - A selfie of "Llanpumsaint and me"
- Dros 18 / Over 18's
- Thema - Ffotograff o Llanpumsaint
Theme - A photograph of Llanpumsaint

Plis dewch a'ch darn crefft i'r Neuadd erbyn 12:45yp
Please bring your craft piece to the Hall by 12:45pm

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from 2 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 2.00 – 3.30 Village Circle Llanpumsaint Church

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1-hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr

Every Friday 11.15 – 12.15 Mobile Post office Outside Bronwydd Hall

Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall

Every Friday 10.00 – 12 noon Ti a Fi sessions Cylch Meithrin Bronwydd Hall

Every Second Saturday in the month, Monthly Market 10 – 12 Llanllawddog Church Hall

April 10 Wednesday 7.00 PTA Easter Bingo Memorial Hall

April 10 Wednesday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint

April 10 Wednesday Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

April 14 Saturday 10.30 Site Tidy Up Allotment site Llanpumsaint

April 16 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

April 19 Wednesday 7.00 PTA Bingo Llanpumsaint Memorial Hall

April 19 Friday - 21 Sunday Easter Services – see notices at Church, Chapels and Skanda Vale

April 28 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

April 28 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

April 29 Monday 2.00 Clwb gwili 60+ Bronwydd Hall

April 30 Tuesday 7.00 AGM Llanpumsaint Church

April 30 Tuesday AGM Welfare and Recreation Association Memorial Hall

May 1 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall

May 1 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

May 3 Friday 7 00 Quiz Night Skanda Vale Hospice Saron

May 5 Sunday Dowser's field trip to St. David's Cathedral and St. Non's Chapel

May 6 Monday Sponsored Walks Skanda Vale Hospice

May 8 Wednesday Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

May 11 Saturday 10.00 Dying Matters Skanda Vale Hospice Saron

May 13 Monday 7.30 AGM Llanpumsaint Heartbeat Memorial Hall

May 18 Saturday Fun Day Welfare and Recreation Association Playing Field

May 19 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

May 20 Monday 8.00 AGM for Llanpumsaint Community Information Exchange Memorial Hall

May 21 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

May 22 Wednesday Grand Charity Quiz Carmarthen Rotary in Carmarthen Athletic Club

May 26 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

May 27 Monday Cader Idris trek – see skandavalehospice.org/events for more details

May 27 Monday Llandysul Walks – see skandavalehospice.org/events for more details

June 1 Saturday 10.30 – 1.00 Allotment site open for Community Gardens Open Day

June 1 – 2 Saturday 9.00 Sheepdog Trial Llwynbedw Farm Llanpumsaint

June 1 - 2 Saturday/Sunday Music Festival in Llandysul – see enquiries@skandavale.org

June 5 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall
June 9 Sunday 12.00 to 4.00pm Open Farm Sunday Esgair and Hafod farms Llanpumsaint
June 12 Wednesday Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book
June 14 Friday 4.30 Car Treasure Hunt Welfare and Recreation Association
June 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
June 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
June 26 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall
June 29 Saturday 10.00 – 12.00 Coffee Morning at Skanda Vale Hospice Saron
June 29 Saturday Summer Fair Llanllawddog Church
July 3 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall
September 21 Saturday 10.00 – 12.00 Macmillan Coffee Morning Memorial Hall
December 7 Saturday PTA Christmas Fair Memorial Hall

Llanpumsaint and Ffynnon Henri Memorial Hall – to book phone Derick Lock on 253524

Village Litter Pick – Pride in Your Patch.

Well, what a lot of litter and rubbish was collected by the volunteers at the beginning of March. We had collectors doing all the approach roads to the village – biggest haul was from the bottom of the Graig to Coopers, 12 bags of rubbish in total, plus a fridge door! Overall we collected over 24 bags of rubbish clearing most of the roads so for at least one day they were free from litter.

Lots of the rubbish collected consisted of takeaway food containers, coffee cups and drinks cans, which are obviously just thrown out of cars when they have been finished with. Who do these people think will clear up their mess? Most people take their rubbish home and put it in their own rubbish bins, but there are those who expect others to follow them round to clear up their mess, and probably then moan about the litter on the roads in the area!!!

For one day, the roads were clear, but disappointing to see how quickly the litter returns.

Remember, that there is a £80 fine for anyone caught littering – cheaper to take it home with you.

Many thanks to all those who helped, and especial thanks to Edward and Sylvia from Panteg who collected all those 12 bags from the Graig to Coopers, including bringing the fridge door back in a wheelbarrow!

Carolyn Smethurst

Open Farm Sunday 9th June 2019

Visit a farm and take part in the UK's annual Farming Industry Open Day.

Sunday 9th June 2019 sees participating farms across the UK throwing open their gates and welcoming visitors. Find out more at www.farmsunday.org

Martin and Nicky are hosting an Open Day at Esgair, Llanpumsaint 12noon to 4pm and look forward to welcoming anyone who would like to visit the farm. Meet the animals, walk our self-guided nature trail, enjoy the views and join us for a cuppa.

There is no charge for this event but if visitors wish to make an optional donation to Maggie's Swansea they will be able to do so. Just follow the signposts from the village. www.pastureperfect.co.uk

And another Open Farm Sunday event at Hafod, Bancyffordd SA44 4SD, where Annie and Liam James will be opening their dairy farm to visitors in the afternoon from 1pm - 4pm. All welcome. Please see farmsunday.org or call Annie 07747013388.

LLANPUMSAINT & NEBO SHORT MAT BOWLING CLUB

We have now reached the end of the 2018-19 League Season. Three of the last 4 matches were very positive for the Club with a 6-2 away win against Llangennech, 8-0 home win against Meinciau and 4-4 home draw against Llanboidy B. The Club finished mid point in the table.

The Club will be playing Bronwydd for the Roy Bowen Memorial Trophy before the end of the season. We will also be holding the Club competitions, presentation night and annual dinner before we take a break for the summer.

The Club would like to congratulate Rhys and Catrin Williams who recently represented Wales in the Under 21's International Match against England in Tamworth. It was their first time playing for Wales and hopefully not their last, they did themselves and the Club proud.

